**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
19 IONAWR 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 19 Ionawr 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mel Buckley, Tina Claydon, Paul Cunningham, Robert Davies, Carol Ellis, Gladys Healey, David Mackie, Debbie Owen a Linda Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Jean Davies

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles): Uwch Reolwr – Diogelu a Chomisiynu; Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu; Uwch Reolwr Oedolion; Rheolwr Diogelu Oedolion ac un o Gadeiryddion Cynhadledd Amddiffyn Plant.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 39. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 40. COFNODION

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 4 o gofnodion 30 Tachwedd a gofynnodd ein bod yn cysylltu â Dave Coyle i gael gwybod am unrhyw gynnydd oedd ganddo ynglŷn ag uned mân anafiadau yng Nglannau Dyfrdwy ac ystafelloedd a gwasanaeth mewnwythiennol mewn Ysbytai Cymunedol. Dywedodd y Cynghorydd Gladys Healey y dylai nifer fawr o feddygfeydd teulu gael eu cynnwys pan fyddai ystafelloedd mawr nad oedd yn cael eu defnyddio.

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 eu cynnig gan y Cynghorydd Mackie ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Rob Davies.

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 eu cynnig gan y Cynghorydd Paul Cunningham ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir.

## 41. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol a dywedodd wrth yr aelodau y byddai adroddiad ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Therapi Galwedigaethol yn cael ei ychwanegu yng nghyfarfod mis Ebrill. Mae'n bosibl hefyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mehefin ar Sut Mae Plant yn Dod i'n

System Gofal - Graddfeydd Amrywiol o Ymyrraeth, Credyd Cynhwysol a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal.

Gofynnodd y Cynghorydd Ellis a fyddai modd cael y newyddion diweddaraf am amseroedd aros ar gyfer Asesiadau Therapi Galwedigaethol yng nghyfarfod mis Ebrill.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen a oedd yna broblem cyfathrebu rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn dioddefwyr a phlant yn eu cartref eu hunain oherwydd trais domestig. Wrth ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu eu bod yn ymwybodol bod Trais Domestig a Cham-drin Domestig yn cael effaith ar oedolion a phlant, ac yn rhan o'u Canolbwynt Cymorth Cynnar sy'n cynnwys 17 asiantaeth, roedd 2 o'r rhain o adran Tai, yn cydweithio ar atgyfeirio ac yn edrych sut y gallent gefnogi plant a theuluoedd yn gynnar. Roedd yna fenter da gyda'r Heddlu o'r enw Ymgyrch 'Encompass' oedd yn gwella cyfathrebu rhwng yr Heddlu ac ysgolion pan roedd plentyn mewn perygl o gam-drin domestig. Pwrpas rhannu gwybodaeth oedd sicrhau bod gan ysgolion fwy o wybodaeth i gefnogi diogelu plant ac i fod mewn sefyllfa well i ddeall os oedd damwain wedi digwydd. Fe awgrymodd bod eitem yn cael ei hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gan fod sawl blwyddyn wedi bod ers i'r Ganolbwynt Cymorth Cyntaf adrodd arno. Fe eglurodd hefyd wrth yr Aelodau am y Triawd Gwenwynig oedd yn ymwneud ag iechyd meddwl, trais domestig a chamddefnyddio sylweddau. Roedd y Ganolbwynt Cymorth Cyntaf yn gweld llawer o hyn.

Fe ymatebodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd ynglŷn ag ymweliadau Climbie a dywedodd fod yna argymhelliad flynyddoedd yn ôl yn dilyn marwolaeth plentyn y dylai Aelodau Etholedig allu cael trafodaethau uniongyrchol gyda staff rheng flaen er mwyn iddynt ddeall y materion. Fe aeth Aelodau Trosolwg a Chraffu i Fflint yn y gorffennol i weld y timau i ofyn cwestiynau, ond fe ddaeth hyn i stop yn ystod y pandemig, serch hynny, gan fod staff bellach yn ôl yn eu swyddfeydd fe fyddai'n syniad da, yn enwedig i Aelodau newydd gyfarfod y staff.

Fe fydd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) yn trafod gyda'r Hwylusydd i roi manylion cyswllt i'r holl Aelodau am yr asiantaethau sy'n ymwneud â Cham-drin Domestig a Chamdriniaeth yr oedd y Cynghorydd Ellis wedi gofyn amdanynt.

Gofynnodd y Cynghorydd Claydon a oedd adrodd rheolaidd yn digwydd am ddelio â cham-drin domestig naill yn y Pwyllgor hwn neu'r Pwyllgor Tai. Cytunodd y Cadeirydd i ofyn i bob Pwyllgor oedd yn adrodd ar y mater i'w gynnwys ar eu rhaglen er mwyn iddynt allu cael mynediad ato. Fe ychwanegodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) pan fyddai'r eitem yn dod gerbron y Pwyllgor, byddai'r Swyddog sy'n gyfrifol am Drais yn Erbyn Merched a Cham-drin Domestig yn cael gwahoddiad i fynychu i roi trosolwg o'r gwaith oedd yn cael ei wneud.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd fod yr holl eitemau Olrhain Camau Gweithredu wedi cael eu cwblhau.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'u heilio gan y Cynghorydd David Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 42. ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELU OEDOLION A PHLANT

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu y Rheolwr Diogelu Oedolion ac un o Gadeiryddion Cynhadledd Amddiffyn Plant a oedd yno i ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau, yn sgil absenoldeb y Rheolwr Uned Diogelu a ysgrifennodd yr adroddiad. Fe eglurodd mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol oedd rhoi gwybod i Aelodau am y gwaith oedd wedi cael ei wneud, y gwaith a fyddai'n cael ei wneud ac i ystyried gwybodaeth allweddol yn ymwneud ag ystadegau a pherfformiad am blant ac oedolion mewn perygl yr oedd gan yr Awdurdod gyfrifoldebau diogelu a diogelu corfforaethol sylweddol amdanynt. Yn ogystal ag ystyried effaith gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a lansiwyd yn ôl yn 2019.

Gofynnodd y Cynghorydd Ellis a oedd y Bwrdd Diogelu yn cynnwys Iechyd, a chadarnhaodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu eu bod yn brif bartner ar y Bwrdd Diogelu yn ogystal â'r holl is-grwpiau. Fe ychwanegodd y Rheolwr Diogelu Oedolion fod yna ddau Arbenigwr Diogelu wedi'u lleoli yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac roeddynt mewn cyswllt rheolaidd â nhw. Fe soniodd hi hefyd am gysylltiadau da gydag Ysbyty Iarlles Caer allai fod yn anodd gan ei fod dros y ffin gyda deddfwriaeth arall

Gan ymateb i'r Cynghorydd Ellis, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu fod yna 191 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Roedd y Cynghorydd Mackie yn bryderus am blant yn gadael gofal oherwydd eu hoedran ac yn credu y dylent gael gofal y tu hwnt i 18 oed. Fe eglurodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) fod yna gategorïau gwahanol o ymadawyr gofal, ond os oedd plentyn wedi derbyn gofal am hirach na 13 wythnos, nid oedd y cyfrifoldeb yn dod i ben yn 18 mlwydd oed, gan fod yna gyfrifoldeb ychwanegol i'w cefnogi hyd at 25 mlwydd oed. Fe eglurodd fod menter 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer plant sy'n troi'n 18 oed a'u bod yn cael y cyfle i aros mewn amgylchedd gofal maeth petaent yn dymuno. Fe ychwanegodd fod y polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi cael ei ddysgu a'r adborth a gafwyd ers iddo gael ei gyflwyno ychydig flynyddoedd yn ôl.

Gofynnodd y Cadeirydd pa arweiniad a roddwyd mewn cysylltiad â'r cyfandaliad roeddynt yn ei gael gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) fod y cynllun peilot Incwm Sylfaenol yn beilot dwy

flynedd o hyd gan Lywodraeth Cymru pan roedd pobl ifanc yn gadael gofal yn derbyn incwm misol. Fe gadarnhaodd yn lleol eu bod yn gweithio gyda CAB sy'n rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc ddefnyddio'r arian yn gyfrifol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal gwerthusiad ac wedi anfon holiaduron i'n Plant sy'n Derbyn Gofal sydd yn derbyn y Peilot Incwm Sylfaenol, er mwyn iddynt gael deall yr effaith mae wedi'i gael. Roedd Cynghorwyr a rhieni Corfforaethol hefyd yn rhan o'r gwerthusiad er mwyn canfod eu barn nhw. Dywedodd yr Uwch Reolwr - Plant a'r Gweithlu pan fyddant yn cael y canlyniadau, y byddent yn adrodd yn ôl drwy'r Fforwm Gwasanaethau Plant i gael barn pobl ifanc i weld pa mor dda y gweithiodd, beth sydd wedi'i ddysgu, beth oedd y manteision a beth oedd yr heriau. Fe ychwanegodd tra bod y Peilot Incwm Sylfaenol yn gynllun dwy flynedd o hyd, fe fyddai angen strategaeth ymadael gan y gallai fod yna oblygiadau sylweddol, gan fod rhai ymadawyr gofal yn ddibynnol arno.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey lle'r oedd Dementia yn ffitio gan nad oedd hi'n credu y dylai ddod o dan Iechyd Meddwl. Dywedodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu gyda'i gilydd fod ganddynt ran fawr i'w chwarae o ran Dementia ynghyd â'r Bwrdd Iechyd. Yn ychwanegol, roedd yna Strategaeth Dementia Gogledd Cymru ar draws y chwe awdurdod lleol, ac yn lleol o fewn y Strategaeth Rhanbarthol roedd Strategaeth Sir y Fflint oedd yn delio â llawer o'r materion sy'n codi. Roedd llawer o'r gwaith yn ymwneud ag ymwybyddiaeth cydweithwyr a rhwydweithiau proffesiynol. Roedd gwaith Cymdeithas Alzheimer a Chefnogwyr Dementia yn ein helpu i ddeall beth yw Dementia ym mhob cam, ond yn benodol yn y camau cynnar pan nad yw pobl wedi cael diagnosis a'u bod yn byw gydag o.

Gan ymateb i'r Cadeirydd, dywedodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu fod egwyddorion Adolygiad Amddiffyn Oedolion ac Adolygiad Amddiffyn Plant yr un fath. Mater pwysig a ddysgwyr o un adolygiad ymarfer penodol oedd pwy oedd yn gyfrifol ym maes diogelu pan roedd yn ymwneud â sawl disgyblaeth h.y. person yn symud o gartref gofal i gartref gofal neu o gartref i gartref gofal, wrth i bobl symud yn aml; roedd yr adolygiad yn ymwneud â dysgu, ac nid ffeindio bai.

Fe ychwanegodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) bod dau Adolygiad Ymarfer Plant wedi'u cynnal yn y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd un ohonynt newydd ddod i ben a gan Lywodraeth Cymru roedd yr adroddiad. Fe eglurodd bod disgwyl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi ganol fis Chwefror. Fe eglurodd fod y digwyddiad wedi digwydd ychydig flynyddoedd yn ôl gan alluogi iddynt gynnal digwyddiadau dysgu i edrych ar eu hunain ac ystyried sut roeddynt yn gweithio gydag eraill. Roedd yr ail adolygiad dal yn digwydd ac roedd disgwyl y trydydd cyfarfod adolygu ar ddiwedd mis Ionawr. Dywedodd bod y gwersi a ddysgwyd yn digwydd eto ar bob lefel o fewn adolygiadau Plant a phwysleisiodd yr angen i ddeall eu bywydau bob dydd a phrofiadau yn y cartref yn ogystal ag edrych ar hanes yr atgyfeiriadau i gael y darlun cyflawn, i gael gwell dealltwriaeth ymysg aml asiantaethau ar gyfer asesiad a chefnogaeth. Roedd cyfathrebu rhwng pob asiantaeth yn allweddol.

Gofynnodd y Cadeirydd pa mor aml yr ymwelir â phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am dros 12 mis. Fe ymatebodd Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn trwy ddweud bod Gweithdrefnau Cymru Gyfan yn gosod y cysylltiad gyda theuluoedd ac roedd y canllawiau'n nodi y dylai ymweliadau ag unrhyw

blentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ddigwydd pob 10 diwrnod gwaith ond roedd Gweithwyr Cymdeithasol yn cwrdd â nhw'n fwy aml yn dibynnu ar yr achosion unigol gan eu bod wedi'u categoreiddio yn coch/oren/gwyrdd. Gallai ymweliadau fod yn rhai wedi'u cyhoeddi neu heb eu cyhoeddi ac fe allent ddigwydd gartref, yn yr ysgol, neu ar eu pen eu hunain ar sail un wrth un.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'u heilio gan y Cynghorydd Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad fel gwybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â Diogelu Sir y Fflint ar gyfer cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 a'r wybodaeth ychwanegol;

(b) Bod y Pwyllgor yn rhoi sylw dyledus i'r amrywiaeth o weithgareddau ar draws yr Uned Ddiogelu a datblygiad a gwelliannau parhaus o ran darpariaeth gwasanaeth; a

(c) Bod y Pwyllgor yn fodlon bod y Broses Ddiogelu ar gyfer Oedolion a Phlant yn Sir y Fflint yn gadarn.

## 43. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD GANOL Y FLWYDDYN

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) Adroddiad Perfformiad Canol Blwyddyn ar gyfer Cynllun y Cyngor ac eglurodd fod yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad ar gyfer Cynllun y Cyngor cyfan ac nid portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig, gan nodi cynnydd o fewn y sefydliad ar gamau gweithredu a mesurau. Roedd yr adroddiad yn nodi'r mesurau nad oeddynt ar y trywydd iawn ac wedi'u categoreiddio yn goch. Doedd dim yn y portffolio hwn. Fe dynnodd sylw at y prif bwyntiau o fewn yr adroddiad oedd yn dod o dan y pum maes roedd y portffolio hwn yn cyfrannu atynt:-

- Byw'n Annibynnol
- Diogelu
- Cymorth i Bobl Fyw Gartref
- Strategaeth Dementia Lleol
- Amgylchedd lleol glân, diogel gyda chysylltiadau da 2022/23

Gan ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd, dywedodd yr Uwch Reolwr Oedolion y dylai pobl oedd yn credu eu bod angen cyfarpar yn y cartref gysylltu â'r tîm un pwynt mynediad ac ar ôl yr asesiad hwnnw, byddai rhywfaint o gyfarpar yn cael eu darparu'n gyflym gan Storfa Cyfarpar Cymunedol. Byddai unrhyw beth oedd yn ymwneud ag addasu cartrefi yn cymryd hirach i'w gyflawni.

Gan ymateb i faterion a godwyd gan y Cynghorydd Ellis ynglŷn â chyfarpar a gofal, dywedodd yr Uwch Reolwr ar gyfer Oedolion fod y rhestr aros am becynnau gofal wedi gostwng yn sylweddol yn yr wythnosau diwethaf. Roedd pobl mewn ardaloedd mwy gwledig yn aros am sawl wythnos yn ogystal â phobl sydd angen gofalwyr sawl gwaith y dydd. Gyda chefnogaeth gan y Tîm Brocera a'u perthynas gyda darparwyr Gofal Cartref, maent wedi bod yn edrych ar ffyrdd o recriwtio gofalwyr i'r asiantaethau hynny oedd yn gallu ei ddarparu'n

uniongyrchol. Roedd y nifer o oriau roedd pobl yn aros am ofal wedi lleihau 400 awr dros yr wythnosau diwethaf, gyda 150 awr arall o bosibl allai gael eu cynnig i bobl yn y gymuned. Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw un yn aros Ysbyty Iarlles Caer yn aros am becyn gofal oherwydd y cynnydd mewn oriau.

Fe ychwanegodd nad oedd yr amser ymateb ac asesiad gan Therapi Galwedigaethol yn flynyddoedd fel roedd rhywun wedi ei awgrymu: yr arhosiad hiraf oedd wedi'i gategoreiddio'n flaenoriaeth isel oedd chwe mis. Roedd hyn yn amser hir i unigolyn oedd yn aros ond roedd y bobl oedd wedi'u categoreiddio'n 'uchel' yn cael eu gweld yn gyflym.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey faint o bobl oedd yn aros am becyn gofal o Ysbyty Maelor Wrecsam oedd yn gorfod dod i Ysbytai Cymunedol. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Oedolion eu bod yn defnyddio Ysbytai Cymunedol i ryddhau pobl o Ysbyty Maelor a chadarnhaodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu fod tri unigolyn yn aros am becyn gofal ar hyn o bryd.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Oedolion sicrwydd i Aelodau na fyddai pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yng Nghymru os nad oedd hi'n ddiogel. Roedd hi'n ymwybodol bod pobl yn cael eu symud i westai cyn bod pecynnau gofal yn cael eu trefnu yn Lloegr.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Mackie a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau canol blwyddyn yng Nghynllun y Cyngor 2022/23;

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ac yn cefnogi'r perfformiad cyffredinol yn ôl dangosyddion perfformiad canol blwyddyn Cynllun y Cyngor 2022/23;

(c) Bod y Pwyllgor yn fodlon â'r esboniadau a roddwyd ar gyfer y meysydd lle bu tanberfformiad; a

(d) Bod y Pwyllgor yn fodlon â'r meysydd lle'r ydym yn perfformio'n well.

## 44 AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.55pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**